The Cross in the Mountains (1808) *a Morning in the Riesengebirge* (1810) gan Caspar David Friedrich (1774 – 1880)

Gan ymwrthod â thuedd anffodus ei gyfoedion i droi natur yn dduw, mynnodd Caspar David Friedrich weld a dangos Duw mewn natur. Defnyddir Rhyfeddod y Cread yn symbol, ganddo, o fawredd y Creawdwr. Perthyn llonyddwch mawr i luniau Friedrich. Nid bloedd mohonynt, ond sibrydiad tawel.

Yn gyntaf, *The Cross in the Mountains* (1808). Saif Croes Crist ar ei phen ei hun yn y llun dramatig hwn, ond nid yn unig. Mae'r groes yn sefyll yn llonydd a chadarn – mae yna graig solet oddi tani. Mae'r hyn a gyflawnwyd gan berchennog y Groes – iachawdwriaeth oesol gyfoes - yn sefyll yn gwbl ddi-sigl. Sylwer ar y coed – coed bytholwyrdd ydynt! Mae ein gobaith ninnau yn y Crist Byw hwn, ein Ceidwad Cryf hefyd yn fytholwyrdd – nid oes gwywo arno.

Enghraifft arall o waith Friedrich: *Morning in the Riesengebirge* (1810). Mae'r llun hwn yn llai adnabyddus na'r cyntaf. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn hoffi mynyddoedd; perthyn elfen ysbrydol i'w cadernid. Hyd yn oed heb y Groes, byddai'r llun yn gweithio'n iawn. Dyma dirwedd caled, noeth yn y blaendir, a thirwedd meddalach o lawer yn y cefndir – crëir ynom cymhlethdod o agosatrwydd a phellter, hiraeth a boddhad. Ond, mae yna groesbren yn y llun, ac mae honno, a'r cymeriad bychan sydd yn pwyso yn ei herbyn, yn ffitio'n berffaith i'r llun; yn gwbl esmwyth a chyffyrddus nid yw'r Groes hon yn tarfu ar y llun o gwbl. Credaf mai arwydd o'r tragwyddol, o'r diogel a'r cadarn yw'r mynyddoedd a'r Groes yw'r ddolen gyswllt rhwng y materol a'r tragwyddol, rhyngom ni â Duw – arwydd o gariad yw'r Groes hon. Mae'r Creawdwr – y mynyddoedd; a'r Gwaredwr - y groes - yn un. Mae'r ddau fel ei gilydd, gyda'i gilydd, yn magu ynom rhyfeddod, diolch ac addoliad.

Tachwedd 2011